| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD** | **29 Ionawr 2015** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Cefnogaeth i Fusnesau** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Er Gwybodaeth** |
| **AWDUR** | **Swyddog Polisi Cydraddoldeb ac Iaith** |

## 1. CEFNDIR

1.1. Gofynnwyd yn y Pwyllgor Iaith am adroddiad o’r hyn mae’r Cyngor yn ei wneud a’r hyn mae modd iddo’i wneud i hyrwyddo busnesau lleol i wneud y defnydd gorau o’r iaith Gymraeg.

1.2. Er mwyn cyflwyno darlun cynhwysfawr, penderfynwyd gwahodd yn ogystal y Swyddog perthnasol o Swyddfa’r Comisiynydd i roi amlinelliad o rôl y Comisiynydd yn y broses o hyrwyddo’r Gymraeg ym myd busnes.

## 2. RÔL Y CYNGOR

2.1. Mae’r Cyngor yn rheoli a gweinyddu nifer o gynlluniau nawdd a grantiau i fusnes, a dyma’r prif ddull o ddylanwadu ar y maes hwn. Ceir amodau a thelerau pendant o safbwynt y Gymraeg ynghlwm a phob cynnig. Y nod yw cydweithio gyda busnesau i gyrraedd y nod, ond ceir cymal yn y Cynllun Iaith sy’n caniatáu i’r Cyngor yn y pen draw atal nawdd ar sail diffyg cydymffurfiaeth ag amodau ieithyddol.

2.2. Dylid nodi na allwn osod amodau ieithyddol ar yr hyn nad ydym yn ariannu. Er enghraifft, os yw cwmni’n derbyn nawdd ar gyfer offer technoleg gwybodaeth, ni allwn fynnu eu bod yn gosod arwyddion dwyieithog. Dan amgylchiadau o’r math, fodd bynnag, byddwn yn manteisio ar y cyfle i hyrwyddo’r iaith ac i dynnu sylw at yr achos busnes dros ddefnyddio’r Gymraeg. Gyda hyn mewn golwg, cynhyrchwyd y daflen *Hwb i’r Iaith, Hwb i’ch Gwaith.*

2.3. Mewn perthynas â phecynnau grant i’r dyfodol, mae bwriad i barhau gydag yr amodau ieithyddol presennol ac i adolygu a diweddaru'r daflen *Hwb i’r Iaith* os yw adnoddau yn caniatáu.

## 3. RÔL Y COMISIYNYDD

3.1. O fewn strwythur swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, mae yna swyddogaeth benodol ar gyfer y sector busnes a’r trydydd sector, gyda Swyddog yn gwasanaethu ardaloedd Gwynedd, Môn, Conwy a Gogledd Ceredigion.

3.2. Ni does arian penodol ar gael i fusnesau drwy’r Comisiynydd, ond cynigir gwasanaeth prawf ddalen a chywiro testun dwyieithog am ddim i hyd at 1,000 o eiriau. Mae’r gwasanaeth yma ar gael i fusnesau a’r trydydd sector.

3.3. Mae’n debygol yn ogystal dan y safonau Iaith, y gosodir gofynion statudol ar fusnesau sy’n derbyn dros £400,000 o arian cyhoeddus.